# Vision Support

## Eich Golwg Chi, Ein Cymorth Ni.

# Pwy ydym ni?

Mae Vision Support yn elusen ranbarthol a sefydlwyd ym 1876. Rydym bellach yn gweithredu mewn sawl rhan o Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru gan ddarparu cymorth a gwasanaethau lleol o fewn y gymuned.

Rydym yn bodoli i gefnogi pobl ag amhariad ar y golwg a chodi ymwybyddiaeth o'u hanghenion.

Mae popeth a wnawn wedi'i gyfeirio'n ymwybodol at ein helpu i gyflawni ein Cenhadaeth: Cynyddu anni
a lles, a lleihau ynysigrwydc
cymdeithasol ar gyfer yr ho
bobl ag amhariad ar y golw
ar draws Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru.

Vision Support

Eich Golwg Chi, Ein Cymorth Ni.

# Beth ydyn ni'n ei wneud

Yn Swydd Gaer, Halton a Gogledd Cymru mae Vision Support yn cynnig y canlynol:

Ymwelwyr Cartref
Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol
Cyngor ar fyw bob dydd a chymhorthion golwg gwan
Cyngor Hawliau Lles/Lles Ariannol
Hyfforddiant Technoleg Hygyrch
Grwpiau ymgyrchu
Grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau
Cyfeillio dros y Ffôn
Cyfleoedd gwirfoddoli

Mae gan Vision Support hefyd Arbenigwyr Adsefydlu Golwg sydd wedi'u contractio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru i gael cyngor ar fyw'n annibynnol gartref a thu allan.

# Ymweliadau Cartref

I bobl sy'n ynysig, bydd ein Hymwelwyr Cartref yn darparu cwmnïaeth a chymorth.

Gall ein Hymwelwyr Cartref ddarparu cymorth emosiynol, cyngor a gwybodaeth am wasanaethau a sefydliadau eraill yn eich ardal. Gallant hefyd roi cyngor ar offer a sut i'w gael, darllen gohebiaeth a chymorth i lenwi ffurflenni.

Ymweliadau Cartref

# Gwasanaeth Allgymorth

Mae ein huned gwybodaeth gymunedol yn teithio ledled Gogledd Cymru a Swydd Gaer. Wedi'i staffio gan ein tîm cyfeillgar a gwybodus, mae'r uned yn cario'r dechnoleg ddiweddaraf i wella bywyd bob dydd, ynghyd â'r cymhorthion golwg gwan diweddaraf, offer a chyngor arbenigol i bobl â nam ar eu golwg.

Mae’r dyddiadau, amseroedd a lleoliadau i’w gweld ar ein gwefan, www.visionsupport.org.uk neu yn ein cylchlythyr deufisol.

I gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr, cysylltwch â'r brif swyddfa.

Gwasanaeth Allgymorth

# Cyngor Lles Ariannol a Budd-daliadau

Helpu gyda phob agwedd o Les Ariannol a hawliau Lles.

Gallwn helpu gyda gwiriadau budd-daliadau, cymorth i lenwi ffurflenni a helpu i wneud cais am unrhyw gonsesiynau e.e. bathodyn glas, tocyn bws, ac ati.

Gallwn hefyd helpu gydag unrhyw gyngor cyllidebu, cyfeirio at sefydliadau dyled allanol a chymorth i wneud cais am bob math o grantiau.

Cyngor Lles Ariannol a Budd-daliadau

# Cwnsela a Lles

Gallwn ddarparu cymorth cwnsela tymor byr i drafod unrhyw beth sy'n effeithio ar eich lles emosiynol, yn ogystal â darparu cymorth i chi ddod i delerau â cholli eich golwg a'r effaith y mae hynny'n ei gael arnoch chi. Gallwch dderbyn cymorth mewn ffordd sydd orau i chi, boed hynny dros y ffôn, galwad fideo, neu wyneb yn wyneb. Arweinir y gwasanaeth cwnsela gan gwnselydd colli golwg achrededig; fodd bynnag, bydd cwnselwyr myfyrwyr yn darparu rhywfaint o gwnsela.

Gallwn hefyd ddarparu adnoddau, cyngor, arweiniad, a gweithdai i'ch helpu i wella gydnerthedd emosiynol a lles.

Gwasanaeth Cwnsela a Lles

# Sgiliau Digidol

Mae ein Swyddogion Sgiliau Digidol cyfeillgar yn gweithio gyda phobl ag amhariad ar y golwg i'w galluogi i ddefnyddio technoleg ddigidol yn hyderus.

Rydym yn gweithio gyda phopeth o ffonau clyfar i dechnoleg cynorthwyydd rhithwir a gliniaduron, er mwyn cynyddu annibyniaeth a lleihau ynysigrwydd. Mae hwn yn wasanaeth y gellir ei gyrchu o gysur eich cartref eich hun.

Sgiliau Digidol

# Grwpiau Cymdeithasol

Mae gweithgareddau a chlybiau cymdeithasol yn cynnwys sgyrsiau, gwibdeithiau, ymarfer corff ysgafn, celf a chrefft, a gweithgareddau cymysg eraill. Mae ymuno ag un o'n grwpiau cymdeithasol yn ffordd wych o wneud ffrindiau newydd a chymdeithasu.

Cysylltwch o flaen llaw os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno.

Am ragor o wybodaeth am ein gweithgareddau cyfredol, cysylltwch â ni ar y rhifau a grybwyllir ar y dudalen olaf! Mae pob grŵp cymdeithasol yn wahanol, ond mae pob grŵp yn gyfeillgar ac yn llawn hwyl.

Grwpiau Cymdeithasol

# Cyfeillio dros y Ffôn

Beth am gael sgwrs hyfryd gydag un o'n gwirfoddolwyr cyfeillgar dros y ffôn?

Bydd ein gwirfoddolwr yn galw ar amser, dyddiad ac amlder y cytunir arnynt gan y ddau barti.

Nod y gwasanaeth hwn yw lleihau teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd trwy ddarparu cyswllt rheolaidd a chwmnïaeth.

Cyfeillio dros y Ffôn

# Adsefydlu

Mae ein Harbenigwyr Adsefydlu Golwg wedi'u contractio i rai Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru am gyngor ar fyw'n annibynnol.

Gallai hyn gynnwys:

- sgiliau cyfathrebu
- defnyddio technoleg
- hyfforddiant cyfeiriadedd a symudedd â chansen hir
- hyfforddiant sgiliau byw'n annibynnol
- deall cyflyrau llygaid a phrognosis
- cyngor a hyfforddiant ar gymhorthion golwg gwan

Harbenigwyr Adsefydlu Golwg

# Adsefydlu

Gallwn hefyd anfon cyfeiriadau at wasanaethau eraill fel:

- Grwpiau cymdeithasol
- Cwnsela
- Therapyddion Galwedigaethol
- Gweithwyr Cymdeithasol

Sylwch, er mai dim ond contractau yng Ngogledd Cymru sydd gan Vision Support, mae'r gwasanaeth hwn ar gael ym mhob ardal, a gallwn eich cyfeirio.

# Grwpiau Ymgyrchu

Rydym yn awyddus i ddysgu a deall mwy am yr anawsterau a'r heriau y mae pobl ag amhariad ar eu golwg yn eu hwynebu, felly mae ein grwpiau VI Voices yn rhedeg i'n helpu i ddeall y materion a wynebir a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â hwy.

Byddwn hefyd yn gwahodd pobl o'r Awdurdod Lleol, y GIG neu'r cyngor i ddod i wrando ar y grŵp yn egluro'r materion dan sylw.
I ymuno, cysylltwch â ni.

Grwpiau Ymgyrchu

# Ffyrdd o Gyfrannu

Gall pob ceiniog a gawn trwy roddion neu gymynroddion wneud gwahaniaeth mawr i fywyd rhywun. Mae arian a dderbynnir yn mynd ymlaen i gefnogi ein gweithrediadau gwerthfawr, gan gynnwys helpu i ariannu ein gwasanaeth gwybodaeth gymunedol, digwyddiadau cymdeithasol, a gwasanaethau ymweliadau cartref; yn ogystal â'n galluogi i ehangu ein harlwy a chyrraedd mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o gyfrannu, boed hynny'n uniongyrchol, trwy rodd yn eich Ewyllys neu Er Cof am rywun annwyl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

Ffyrdd o Gyfrannu

# Codi arian

Hoffech chi helpu Vision Support mewn ffordd hwyliog? Waeth pa mor fawr neu fach, mae'r holl arian a dderbynnir drwy godi arian yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r gwasanaethau y gallwn eu darparu. Mae codi arian yn ffordd gyffrous i chi allu codi arian ac ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ag amhariad ar eu golwg ledled Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru.

Meddyliwch yn greadigol a dechreuwch godi arian trwy weithgaredd rydych chi'n angerddol amdano.

Cysylltwch i ddarganfod mwy a gofyn am becyn codi arian!

# Gwirfoddoli

Rydym yn ddibynnol ar wirfoddolwyr ac mae llawer o wahanol ffyrdd i bobl gymryd rhan trwy wirfoddoli.

Hoffech chi helpu gyda grŵp cymdeithasol neu weithgaredd? Neu efallai bod yn gyfeillachwr ffôn neu'n gyfeillachwr wyneb yn wyneb? Mae cymaint o gyfleoedd i helpu. Dyma sylw gan un o'n gwirfoddolwyr:

"Rwy'n mwynhau fy amser yn gwirfoddoli gyda'r elusen yn fawr ac mae'n hyfryd gweld a bod yn rhan o gymuned glos sy'n gefnogol ac yn garedig i'w gilydd. Mae'n bleser bod yn rhan ohono."

Cysylltwch drwy'r manylion cyswllt ar ddiwedd y llyfryn hwn.

# Manteision Ardystio

Mae cael Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) yn y DU yn gam hanfodol tuag at gael mynediad at y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnoch. Dyma rai o'r manteision:

- Mynediad i amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, hyfforddiant symudedd, a chymorth addysgol.
- Gall fod yn haws gwneud cais am fudd-daliadau ariannol.
- Efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer dyfeisiau cynorthwyol.
- Mynediad i Drwyddedau Parcio/trafnidiaeth/Pasys Bws.

Manteision Ardystio

# Ble rydym ni?

Cymorth yn Swydd Gaer

Ffôn: 01244 478910

E-bost: referrals@visionsupport.org.uk

Cymorth yng Ngogledd Cymru

Ffôn: 01244 381515

E-bost: referrals@visionsupport.org.uk

Halton Sensory Services

Ffôn: 0151 511 8801

E-bost: information@visionsupport.org.uk

Ar gyfer unrhyw beth heblaw atgyfeiriadau, anfonwch e-bost information@visionsupport.org.uk

Vision Support

Eich Golwg Chi, Ein Cymorth Ni.

# Ymunwch â ni!

Ymunwch â'n cymuned ar-lein drwy ymweld â'n gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol! Yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am Vision Support, ein gweithgareddau a'n blogiau unigryw!

**@VisionSupportCharity**

**@_VisionSupport**

**@_VisionSupport**

**@VisionSupportCharity**

**@VisionSupportCharity**

Eich Golwg Chi, Ein Cymorth Ni.

Vision Support

Eich Golwg Chi, Ein Cymorth Ni.